SFHDiab HA4

Asesu traed unigolion â diabetes a rhoi cyngor ar gynnal traed iach a rheoli problemau â'r traed

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu cyflwr traed unigolyn â diabetes i bennu statws y risg, a chymryd y camau priodol, a all gynnwys atgyfeirio am driniaeth, rhoi cyngor, neu drafod cynllun gofal. Gall gofalwr fod yng nghwmni'r unigolyn a dylid ei gynnwys yn y trafodaethau os bydd yr unigolyn yn dewis ei gynnwys.

Gall y gweithgareddau a ddisgrifir yn y safon hon ddilyn atgyfeiriad yn dilyn archwiliad cychwynnol neu efallai mai dyma fydd yr archwiliad cyntaf o'r traed. Nid yw defnyddio Doppler llaw i asesu llif y gwaed yn cael ei gynnwys yn y safon hon.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyfathrebu â'r unigolyn a phobl allweddol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i ddealltwriaeth ac anghenion yr unigolyn, a'r hyn sy'n well ganddo
6. parchu hawliau a dymuniadau'r unigolyn o ran ei breifatrwydd, ei gredoau a'i urddas
7. cyfathrebu ag unigolion a gofalwyr trwy gydol y drafodaeth a'r archwiliad mewn modd sy'n briodol iddynt ac sy'n annog cyfnewid barn a gwybodaeth yn agored
8. ennill cydsyniad gwybodus, dilys gan yr unigolyn yn unol â gweithdrefnau penodol
9. sicrhau bod yr unigolyn yn deall:
    - effeithiau posibl diabetes ar broblemau fasgwlaidd a niwrolegol yn y traed ac yn rhan isaf y coesau
    - problemau neu risgiau a ddatgelwyd gan yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ardaloedd o ansicrwydd, y gall fod angen profion pellach arnynt
    - sut gallant reoli'u diabetes i gynnal iechyd eu traed
10. casglu gwybodaeth, trwy drafodaeth gyda'r unigolyn a'r gofalwr ar:
    - hanes meddygol perthnasol
    - unrhyw symptomau goddrychol problemau yn y traed a rhan isaf y coesau
11. archwilio ac asesu'r unigolyn am:
    - gyflwr croen y traed a rhan isaf y coesau
    - niwropathi synhwyraidd gan ddefnyddio offer priodol
    - unrhyw haint ac wlseriad presennol
    - unrhyw gamffurfiadau i'r traed
    - statws fasgwlaidd ar gyfer presenoldeb clefyd rhedwelïol perifferol trwy deimlo pylsiau troedol
    - symudedd y cymalau a nodi unrhyw broblemau biomecanyddol
12. archwilio esgidiau'r unigolyn ac asesu eu haddasrwydd i'r math o droed a statws y risg
13. nodi'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar allu'r unigolyn i ofalu am ei draed, a chynnal asesiad cyffredinol o'i allu i ofalu am ei hun
14. trefnu archwiliad neu driniaeth bellach, gyda chyflymder priodol, lle y

mae eich asesiad risg yn nodi hyn

15. trafod a chytuno ar un neu fwy o gamau gweithredu y bydd yr unigolyn a'r gofalwr yn ymgymryd â nhw i fynd i'r afael â phroblemau neu risgiau
16. cynnig gwybodaeth ysgrifenedig ar ofal y troed mewn ffurf addas i'r unigolyn a'r gofalwr, i atgyfnerthu'u dealltwriaeth
17. cytuno pryd y daw'r unigolyn am archwiliad nesaf, gan adael ysbaid sy'n briodol i'r risgiau a nodoch
18. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. sut i addasu arddulliau cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion yr unigolyn
8. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
9. ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a'i rôl mewn gwella gofal
10. yr egwyddorion, yr ymarfer a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydsyniad gwybodus
11. anghenion unigolion a gofalwyr, gan gynnwys ystyriaethau'n gysylltiedig ag urddas, cyfrinachedd a phreifatrwydd
12. strwythurau, rolau a chyfrifoldebau rheoli'r sefydliad
13. y gweithdrefnau a'r dulliau sy'n gysylltiedig â chydlynu timau rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol o fewn ac ar draws gwasanaethau
14. monitro a rheoli diabetes ac addysg amdano
15. atal a rheoli problemau'r traed i bobl â Diabetes Math 2
16. achosion, arwyddion a symptomau diabetes
17. glwcos gwaed a gwerthoedd HbA1c normal ac annormal
18. patrymau cynyddol diabetes
19. pwysigrwydd ac effeithiau addysg a hunanreolaeth unigol
20. effaith seicolegol diabetes, adeg diagnosis ac yn y tymor hir
21. cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr unigolyn/grŵp gofalwyr
22. effeithiau:
    - ysmygu, alcohol a chyffuriau anghyfreithlon
    - afiechyd cydredol
    - maeth ac ymarfer corff
23. sut i reoli hypoglycemia

24. y meddyginiaethau a ddefnyddir i reoli diabetes
25. cymhlethdodau hirdymor diabetes a phryd maen nhw'n debygol o ddigwydd
26. sut i archwilio'r traed ac asesu statws risg
27. sut i fonitro:
    - risg gardiofasgwlaidd
    - clefyd yr arennau
    - retinopathi diabetig
    - lefelau glwcos, HbA1c, pwysedd gwaed
28. y gyfraith a chanllawiau arfer da ar gydsyniad
29. llwybrau atgyfeirio
30. systemau sicrwydd ansawdd
31. proses hysbysu at ddibenion cyfreithiol ac yswiriant
32. ffynonellau gwybodaeth i ymarferwyr ac unigolion am ddiabetes
33. manylion cyswllt grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol
34. sut gall unigolion fanteisio ar gyfleusterau lleol ar gyfer ymarfer corff a gweithgarwch corfforol, addysg a gweithgareddau cymunedol
35. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHDiab HA4

Asesu traed unigolion â diabetes a rhoi cyngor ar gynnal traed iach a rheoli problemau â'r traed

Datblygwyd gan	Skills for Health
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2021
Indicative Review Date	Ebrill 2026
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Health
RCU gwreiddiol	SFHDiab HA4
Galwedigaethau perthnasol	Iechyd; Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Perthynol; Gweithwyr iechyd proffesiynol; Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig
Cyfres/Set	Diabetes
Geiriau Allweddol	Diabetes; traed; troed; asesu; problemau; rheoli